# Cylchlythyr YGG Llwynderw/*YGG Llwynderw Newsletter*

## 17.07.2026

Rydym ni yn garedig. *We are kind*

Rydym ni yn gwneud ein gorau glas. *We do our very best*

Rydym ni yn barchus. *We are respectful*

**% Presenoldeb/ *Attendance* %**

Am y flwyddyn/ For the year: **93.5%**

Ein targed/ *Our target:* **97.5%**

**Hawl y mis/ *Right of the month***



Yr hawl i ymlacio ac i chwarae

*The right to relax and play*

Diolch unwaith eto am eich holl gefnogaeth yn ystod blwyddyn brysur arall yn Ysgol Llwynderw, yn benodol am helpu ar dripiau ysgol, darparu gwisgoedd, lifftiau i ddigwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon, mynychu cyn-gherddau, ffeiriau, boreau coffi, digwyddiadau codi arian ac ati.

Hefyd, diolch yn fawr iawn i'r CRA ar ddiwedd blwyddyn lwyddiannus unwaith eto yn codi arian a chefnogi'r ysgol, y plant a'r staff yn gyffredinol.

Yn drist iawn, byddwn yn dweud 'Hwyl Fawr' wrth Mrs Proctor-Morgan a fydd yn dechrau ei rôl newydd fel Pen-naeth newydd YGG Gellionnen ym mis Medi. Diolchwn iddi am ei hymroddiad a'i hymrwymiad i Lwynderw dros y 9 mlynedd diwethaf a hoffem ddymuno 'Pob Lwc' iddi yn ei ysgol newydd.

Hoffem hefyd ddweud 'Ffarwel' mawr wrth Miss Jones sy'n ein gadael ni i addysgu yn YGG Gellionnen. Mae hi wedi bod yn ased i'r ysgol ac yn aelod gwerthfawr o dîm Llwynderw, yn cael ei pharchu gan staff, rhieni a phlant. 'Pob lwc' Miss Jones!

Pob lwc hefyd i'n disgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt gychwyn ar eu pennod newydd yn Ysgol Gyfun Gwyr a "chroeso" i ddisgyblion newydd sydd yn ymuno â ni ym mis Medi

Dymunwn wyliau haf hyfryd i chi gyd ac edrychwn ymlaen at groesawu'r plant yn ôl ar ddydd Iau, Medi 3ydd!

***********************************************************************

Thank you once again for all your support during another busy year at Ysgol Llwynderw, specifically for helping on school trips, providing uniforms, lifts to sporting events and competitions, attending concerts, fairs, coffee morn-ings, fundraising events etc.

Also, a big thank you to the PTA at the end of another successful year raising money and supporting the school, the children and the staff in general.

We will sadly be saying 'Hwyl Fawr' to Mrs Proctor-Morgan who will be starting her new role as the new Head Teacher in YGG Gellionnen in September. We thank her for her dedication and commitment to Llwynderw over the last 9 years and we would like to wish her 'Pob Lwc' in her new school.

We would also like to say a big 'Hwyl Fawr' to Miss Jones who is leaving us to teach in YGG Gellionnen. She has been an asset to the school and a valuable member of the Llwynderw team, respected by staff, parents and chil-dren. 'Pob Lwc' Miss Jones!

Good luck also to our year 6 pupils as they start their new chapter at Ysgol Gyfun Gwyr and "welcome" to new pu-pils who join us in September

*****************************************************************************************